# Cyflwyniad i'r cymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol – canllaw i ddysgwyr/myfyrwyr



# CYNNWYS


Golwg gyffredinol ar y fframwaith 4

Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020 5

Cymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol 6

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? 6

Gofynion cofrestru dysgwyr 6

Nodau ac amcanion 6

Pa gyfleoedd sydd ar gael i symud ymlaen? 7

Sut gallaf i fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod? 7

Strwythur y cymhwyster 8

Beth yw uned? 9

Mae rhai geiriau a gosodiadau mewn teip trwm – pam? 10

Am ba feysydd pwnc byddaf i'n dysgu? 12

Beth mae'n rhaid i mi ei wneud i ennill y cymhwyster hwn? 13

Ffocws ar arweinyddiaeth 14

Ymgysylltu â chyflogwyr 15

Beth yw mentor yn y gweithle? 15

Sut gallai fy nhaith drwy'r cymhwyster edrych? 16

Cam 1 – Cyn cyflwyno 17

Pa unedau byddaf i'n eu cwblhau? 18

Beth yw credydau? 19

Cam 2 – cyfnod dysgu 20

Parodrwydd am asesiad – dangos cymhwysedd 22

Rhyddhau'r dasg 22

Cam 3 – Cyfnod yr Asesiad Crynodol 23

Sut caiff fy nghymhwyster ei asesu? 24

Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud? 25

Cymorth ac adborth 25

Crynodeb o'r asesiad ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol 26

Beth yw asesiad llafar? 27

Yn ystod yr asesiad llafar 27

Amseriadau 27

Cadw tystiolaeth 28

Beth yw tasg CH a pham mae ganddi hi **ddwy** ran? 28

Yn ystod y cyflwyniad a'r drafodaeth 29

Amseriadau 29

Cynorthwyo'r broses asesu 30

Cam 4 – Cwblhau 32

Dyfarnu'r cymhwyster 33

Ailgyflwyno 33

Sut rydw i'n cael fy nhystysgrif? 34

Pa gefnogaeth sydd ar gael i mi? 35

Sut gallaf i baratoi am fy asesiadau? 36

Dilyniant –beth gallai'r cymhwyster hwn arwain ato? 37

Dilyniant mewn Cyflogaeth 38

Dilyniant ar draws y sector ehangach 39

Fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru'n cydnabod fy nghymhwyster? 40

Cyllid 40

Sut rydw i'n hoffi dysgu – Beth yw fy 'hoff' arddull dysgu? 41

# Golwg gyffredinol ar y fframwaith

Rhwng 2015 a 2016, cynhaliodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r holl gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant y gellid eu hariannu yng Nghymru.  Yn dilyn yr adolygiad, daeth Cymwysterau Cymru i'r casgliad bod y nifer mawr o gymwysterau oedd ar gael yn rhy ddryslyd i ddysgwyr, rhieni a chyflogwyr.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, comisiynodd Cymwysterau Cymru City & Guilds a CBAC (**y Consortiwm**) i ddatblygu o leiaf 22 o gymwysterau gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion datblygol y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant (gweler y darlun ar dudalen 5). Rydym wedi gweithio'n agos gyda Chymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chyrff eraill yn y sector, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr gweithleoedd i sicrhau bod y cymwysterau newydd yn arloesol, yn addas at eu pwrpas ac o'r ansawdd gorau.

Mae City & Guilds a CBAC yn Gyrff Dyfarnu cydnabyddedig. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cael ein cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru a chyrff eraill ledled y DU i lunio, datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau yn unol ag amodau a rheoliadau penodol.

Gallwch chi ddarganfod mwy am adolygiad Cymwysterau Cymru yma:

https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

Os ydych chi yn yr ysgol neu goleg chweched dosbarth, yn gweithio neu'n astudio mewn coleg neu gyda darparwr sydd wedi'i leoli yn y gwaith, bydd y gyfres o gymwysterau newydd wedi'i llunio i ddiwallu eich anghenion. Mae'r cymwysterau newydd ar gael o Lefel 1 i Lefel 5, gan gynnwys TGAU a TAG UG a Safon Uwch. Maent yn darparu cyfleoedd i symud ymlaen i bobl sy'n ystyried mynd i mewn i gyflogaeth, yn ceisio datblygu eu gyrfa neu'n gobeithio mynd i goleg neu brifysgol.

Mae adnoddau'r cymwysterau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Siaradwch â'ch tiwtor/athro/athrawes/aseswr am gwblhau eich cymhwyster yn Gymraeg. Mae deunyddiau ategol ar gael ar-lein gan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru, gan gynnwys:

- Llawlyfr y cymhwyster - yn cynnwys canllawiau unigol ar gyfer yr unedau
- Pecyn asesu
- The Stepping Up to Management resources.

# Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020

## Lefel 5

- City & Guilds — Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer — **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer — **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 4

- City & Guilds — Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
  1) Eiriolaeth Annibynnol
  2) Lleoliad Oedolion/Bywydau a Rennir
  3) Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
  **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol — **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau — **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Arwain a Rheoli Gofal,Chwarae,Dysgu a Datblygiad Plant: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau — **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds — Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant — **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 3

- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) — **Yn fyw: Medi 19**
- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc) — **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec — Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol — **Yn fyw: Medi 20**
- cbac wjec — TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant — **Yn fyw: Medi 20**
- cbac wjec — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori — **Yn fyw: Medi 20**
- City & Guilds — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer — **Yn fyw: Medi 19**

## Lefel 2

- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) — **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau — **Yn fyw: Medi 19**
- City & Guilds — Iechyd a Gofal Cymdeithasol: **Craidd*** — **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec — TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant — **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori — **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: **Craidd*** — **Yn fyw: Medi 19**
- City & Guilds — Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer — **Yn fyw: Medi 19**

### Allwedd

- Seiliedig ar ymarfer
- Seiliedig ar wybodaeth
- * Argymhellir sefyll y cymhwyster Craidd cyn neu ar yr un pryd â Lefel 2 neu Lefel 3
- City & Guilds: Cynigir gan City & Guilds
- cbac wjec: Cynigir gan CBAC

Mae'r canllaw hwn i ddisgyblion yn canolbwyntio ar y cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**. Mae'n rhaid i chi fod o leiaf 18 mlwydd oed i gwblhau'r cymhwyster hwn. Mae'r fframwaith isod yn dangos lle'r cymhwyster yn y gyfres newydd o gymwysterau.

# Cymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Rydych chi'n gweithio tuag at y cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, sydd wedi'i lunio ar gyfer unigolion sy'n cael eu cyflogi (cyflogaeth am dâl neu ddi-dâl neu bobl â lleoliad gwaith ar gael iddynt) yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol sy'n bwriadu symud ymlaen i rôl rheoli. Bydd yn caniatáu i chi feithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth allweddol sy'n sail i arwain a rheoli yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

## Gofynion cofrestru dysgwyr

Nid yw'r Consortiwm yn pennu gofynion cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gennych chi'r potensial i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus, a'r cyfle i wneud hynny. Gallai fod o fudd i chi gwblhau'r cymhwyster **Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd** cyn y cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, ond nid yw hyn yn hanfodol.

## Nodau ac amcanion

Bydd cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth yng nghyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli
- deall arddulliau arwain a rheoli gwahanol a'r ffordd y mae'r rhain yn dylanwadu ar ymarfer mewn gwasanaethau
- deall sut i arwain dulliau person/plentyn-ganolog wrth ymarfer
- gallu gweithio fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data
- gwybod sut i arwain, rheoli a gwella gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

## Pa gyfleoedd sydd ar gael i symud ymlaen?

Erbyn diwedd eich cymhwyster, byddwch chi wedi ennill y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol sydd eu hangen i'ch cynorthwyo chi i symud ymlaen at y cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer** neu at gyflogaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gweler gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Sut gallaf i fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod?

Datblygwyd cynnwys y cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol** ar y cyd â'r consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'n debygol y bydd eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gwaith yn cydweithio'n agos â chyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn eich ardal ac wedi datblygu rhaglen astudio i sicrhau bod holl ofynion y cymhwyster yn cael eu bodloni'n llawn. Efallai y bydd eich dysgu'n digwydd mewn amgylchedd strwythuredig iawn, e.e. mewn ystafell ddosbarth draddodiadol, neu mewn dull mwy cymysg sy'n cynnwys dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein. Fel arall, efallai y cewch chi gymorth i ddysgu 'yn y swydd' a gwneud ychydig o astudio hunangyfeiriedig. Pa bynnag ddull dysgu a ddefnyddir, rydym wedi darparu adnoddau cynorthwyol i'ch helpu chi drwy'r broses.

Yn yr ysgol, mewn coleg neu wrth gael cymorth gan ddarparwr yn y gwaith, mae'n debygol y bydd angen i chi ddysgu gwybodaeth sy'n newydd i chi. Mae nifer o wahanol ffactorau'n gallu dylanwadu ar sut rydych chi'n dysgu, gan gynnwys beth sy'n eich cymell chi a pha fath o amgylchedd sydd ei angen arnoch chi.  Bydd ar eich tiwtor/athro/athrawes/aseswr eisiau gweithio gyda chi i gael gwybod sut i'ch cynorthwyo chi i weithio'n effeithiol – yn aml caiff hyn ei alw'n eich **'hoff' ddull dysgu** (mae rhagor o wybodaeth am 'hoff' ddulliau dysgu ar dudalen 41).

# Strwythur y cymhwyster

Mae’r cymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys tair uned orfodol:

| | | |
|---|---|---|
| Uned 410: Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person-ganolog/ plentyn-ganolog | Uned 411: Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol | Uned 412: Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol |

| | | |
|---|---|---|
| Isafswm oriau dysgu dan arweiniad | 335 awr | Dyma faint o amser dysgu ac asesu dan oruchwyliaeth sydd ei angen i gyflwyno'r cymhwyster, a gellir defnyddio'r ffigur hwn at bwrpasau cynllunio. |
| Cyfanswm amser y cymhwyster | 600 awr | Dyma gyfanswm yr amser y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrir ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol. |

Prif ddulliau asesu’r cymhwyster hwn fydd cyfres o dasgau strwythuredig a asesir yn allanol ac yn fewnol, gan gynnwys:

- atebion ysgrifenedig
- asesiad llafar
- adroddiad a chyflwyniad.

Mae’r gweithgareddau asesu hyn wedi’u llunio i ganiatáu casglu tystiolaeth gyfannol, i’ch cynorthwyo chi i ddangos eich gwybodaeth a’ch sgiliau ar draws gwahanol unedau a deilliannau dysgu yn yr un gweithgaredd, gan leihau unrhyw ailadrodd diangen wrth asesu.

# Beth yw uned?

Mae'r holl wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac ymarfer sydd eu hangen ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'u trefnu mewn unedau – yn debyg i benodau mewn llyfr. Mae cynllun yr unedau a ddefnyddir yn y cymhwyster hwn wedi'i ddangos isod, ac rydym wedi nodi agweddau allweddol ac iaith allweddol y byddwch chi'n dod yn fwy a mwy cyfarwydd â nhw ar eich taith o ddysgu ac asesu.

**Rhif yr uned**

**Lefel yr uned**

**Nod/crynodeb uned:** crynodeb ar lefel uchel o gynnwys yr uned, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a/neu'r sgiliau y mae disgwyl i'r dysgwr eu cyflawni wrth ei chwblhau. Gall gynnwys gwybodaeth am y mathau o leoliadau y mae'r uned yn ymwneud â nhw, neu'n cael ei heithrio rhagddynt.

**Deilliant dysgu:** maes dysgu gofynnol annibynnol sy'n berthnasol i nod yr uned. Bydd nifer y ddau yn amrywio o uned i uned.

**Teitl yr uned**

**ODA:** nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad a argymhellir ar gyfer yr uned.

**Meini prawf asesu:** eitemau o wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau sydd eu hangen i fodloni deilliant dysgu penodol. Asesir pob MPA dros amser, ond nid mewn un asesiad.

---

**Uned 412** **Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 100 |
| **Credyd:** | 18 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i ddamcaniaethau, fframweithiau a dulliau o ysgogi a datblygu timau i gefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog. |

Deilliant dysgu:

1. Deall cydraddoldeb ac amrywiaeth a phwysigrwydd y Gymraeg yng nghyd-destun datblygu'r gweithlu

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth a... a rheoli gweithwyr
1.2 Sut i hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y gweithle

Deilliant dysgu:

2. Deall y sgiliau a'r rhinweddau y mae eu hangen i arwain a rheoli timau'n effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Gwerthoedd craidd ac ymddygiadau arwain
2.2 Pwerau a chyfrifoldebau arweinwyr a rheolwyr
2.3 Defnyddio gwybodaeth emosiynol a rheoli perthnasoedd
2.4 Defnyddio gwaith dadansoddi rhyngweithredol
2.5 Cymhwyso'r Fframwaith Synhwyrau
2.6 Cymell gweithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Deilliant dysgu:

3. Deall pwrpas a gofynion prosesau recriwtio a sefydlu gweithwyr sy'n seiliedig ar werthoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol


Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Llawlyfr y Cymhwyster 46

# Mae rhai geiriau a gosodiadau mewn teip trwm – pam?

Yn y cymhwyster, cyflwynir rhai geiriau neu frawddegau yn y meini prawf asesu mewn teip **trwm**; mae hyn yn golygu bod amrediad wedi'i ddarparu a chyflwynir hwn ar waelod y deilliant dysgu.

Mae'r wybodaeth yn yr amrediad yn trafod pa mor fanwl mae angen bod a faint o ddyfnder i'w gynnwys ar gyfer meini prawf asesu penodol.

**Amrediad:** nodi beth yn union mae'n rhaid ei ystyried wrth roi sylw i'r geiriau neu'r gosodiadau sydd mewn teip trwm.



**Uned 410** **Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person/plentyn-ganolog**

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 115 |
| **Credyd:** | 22 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i ddamcaniaethau, modelau a fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer ymarfer person/plentyn-ganolog. Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc |

Deilliant dysgu:

1. Deall pwysigrwydd parchu unigrywiaeth, cydraddoldeb ac amrywiaeth

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Deddfwriaeth a pholisi sy'n cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth
1.2 Effaith stereoteipio, rhagfarn, gwahaniaethu a throsedd casineb ar lesiant

Deilliant dysgu:

2. Deall sut i ddefnyddio dull seiliedig ar hawliau ar gyfer asesu angen a risg

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Sut mae deddfwriaeth, confensiynau ac egwyddorion yn cefnogi [illegible] person/plentyn-ganolog ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
2.2 Sut gellir cydbwyso ystyriaeth o **hawliau a rhyddid** â risg

**Amrediad**

**Hawliau a rhyddid** – dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol (o hybu ymarfer person/plentyn-ganolog ac asesu angen a risg, gan gynnwys yr hyn sy'n bwysig i unigolion)

Deilliant dysgu:

3. Deall rôl asesiadau cynhwysol o anghenion unigol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Llawlyfr y Cymhwyster 23

**Geiriau mewn**

## Ble gallaf i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am bob uned?

Ar ddiwedd pob uned, rydym wedi darparu arweiniad pellach, a bydd eich tiwtor/hyfforddwr/aseswr yn dilyn hwn wrth gyflwyno addysgu, dysgu ac asesu. Mae'r 'Canllawiau Cyflwyno' ar gyfer uned 411 i'w gweld yma. Efallai y bydd hi'n ddefnyddiol i chi edrych ar Ganllawiau Cyflwyno pob uned yn y cymhwyster hwn. Mae'r rhain i'w gweld yn llawlyfr y Cymhwyster.

**Uned 411** **Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**

Gwybodaeth Ategol

***Canllawiau cyflwyno***

| Cynnwys | Ymhelaethiad |
|---|---|
| DD1 | **Amcanion thema**<br>• Cyflwyniad i ddamcaniaethau, modelau a fframweithiau arweinyddiaeth, rheolaeth, newid ac arloesedd |
| 1.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Ystyr y termau canlynol: arweinyddiaeth; rheolaeth ac arloesedd a newid<br>• Damcaniaethau arwain<br>• Arddulliau arwain<br>• Damcaniaethau rheoli newid<br>• Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a Chod Ymddygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br>• Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>**Adnoddau:**<br>Dylid defnyddio cyflwyniad PowerPoint Uned 411 DD1 (t.1) Damcaniaethau a Modelau i roi'r wybodaeth sylfaenol y mae ei hangen ar ddysgwyr ar gyfer yr uned hon. |
| 1.2 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Diwylliant sefydliadol ac arweinyddiaeth foesegol<br>• 'Traffig diwylliannol' ym maes iechyd a gofal cymdeithasol<br>• Rôl arweinwyr a rheolwyr timau iechyd a gofal cymdeithasol wrth arwain arloesedd a newid<br><br>Adnoddau:<br>Dylid defnyddio cyflwyniad PowerPoint Uned 411 DD1 (t.2) Diwylliant Sefydliadol ac Arweinyddiaeth Foesegol i roi'r wybodaeth sylfaenol y mae ei hangen ar ddysgwyr ar gyfer yr uned hon. |
| DD2 | **Amcanion thema:**<br>• Deall sut a pham mae fframweithiau deddfwriaethol a fframweithiau rheoleiddio yn dylanwadu ar ymarfer mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol |
| 2.1 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>➢ Diffiniadau o: Y Gyfraith<br>➢ Deddfwriaeth |



| | |
|---|---|
| | ➢ Deddfau<br>➢ Fframweithiau deddfwriaethol a fframweithiau rheoleiddio<br>➢ Gwasanaethau rheoleiddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol<br>➢ Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol<br>➢ Addasrwydd i Ymarfer<br><br>• Adran 6 (tt 15-16) Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol<br>• Cod Ymddygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br>• Cyflwyniad ac adran 11 o'r Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>**Adnoddau:**<br>• Tudalen hafan gwefan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal<br>• Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal 2015 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/safonau-iechyd-a-gofal-ebrill-2015.pdf<br>• Canllawiau Statudol Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 https://gov.wales/docs/dhss/publications/180201statutory-guidanceen.pdf<br><br>Dylid defnyddio cyflwyniad PowerPoint Uned 411 DD2 (t.3) Fframweithiau Deddfwriaethol a Fframweithiau Rheoleiddio i roi'r wybodaeth sylfaenol y mae ei hangen ar ddysgwyr ar gyfer yr uned hon. |
| 2.2 | **Testunau y dylid ymdrin â nhw:**<br>• Y gyd-ddibyniaeth rhwng unigolion, a fframweithiau deddfwriaethol a fframweithiau rheoleiddio<br>• Sut mae fframweithiau deddfwriaethol a fframweithiau rheoleiddio yn dylanwadu ar ymarfer a gwasanaethau<br>• Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal 2015<br>• Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Rheoliadau a Chanllawiau Statudol cysylltiedig<br><br>Adnoddau:<br>• Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal 2015 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/safonau-iechyd-a-gofal-ebrill-2015.pdf<br>• Canllawiau Statudol Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<br>• Fframwaith Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad GIG Cymru http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/fframwaith-gwerthoedd-a-safonau-ymddygia<br>Dylid defnyddio cyflwyniad PowerPoint Uned 411 DD2 (t.3) Fframweithiau Deddfwriaethol a Fframweithiau Rheoleiddio i roi'r wybodaeth sylfaenol y mae ei hangen ar ddysgwyr ar gyfer yr uned hon. |
| DD3 | **Amcanion thema:**<br>Sut caiff canlyniadau eu mesur a'u defnyddio fel adnodd i gefnogi. |

# Am ba feysydd pwnc byddaf i'n dysgu?

Mae pob uned yn y cymhwyster yn cynnwys meysydd dysgu sy'n cysylltu â theitl pob uned. Fel sydd i'w weld uchod, cyflwynir y rhain mewn Deilliannau Dysgu a Meini Prawf Asesu. Isod darperir golwg gyffredinol ar bob grŵp o'r unedau yn y cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**:

| UNEDAU GORFODOL | |
|---|---|
| Uned | **Crynodeb o'r Uned** |
| Uned 410: Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person-ganolog/plentyn-ganolog | Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i ddamcaniaethau, modelau a fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer ymarfer person/plentyn-ganolog.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc.<br><br>Mae'n cynnwys pynciau dysgu fel cydraddoldeb, amrywiaeth a gwahaniaethu; codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol; hawliau dynol; dinasyddiaeth; cyfathrebu; damcaniaethau cymdeithasegol a seicolegol; a diogelu. |
| Uned 411: Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol | Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i fframweithiau damcaniaethol a fframweithiau rheoleiddio a'r ffordd y mae'r rhain yn cefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog.<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc.<br><br>Mae'n cynnwys pynciau dysgu fel damcaniaethau ac arddulliau arwain; damcaniaethau rheoli newid; fframweithiau rheoleiddio; diwylliant cyfundrefnol; dulliau mesur deilliannau; a hyfforddiant, mentora a chyfweliadau cymhellol. |
| Uned 412: Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol | Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i ddamcaniaethau, fframweithiau a dulliau o gymell a datblygu timau i gefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog.<br><br>Mae'n cynnwys pynciau dysgu fel cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; pwysigrwydd y Gymraeg; deallusrwydd emosiynol; rheoli perthynas; y Fframwaith Synhwyrau; recriwtio a sefydlu; dirprwyo; gwrthdaro; a datblygiad parhaus. |

# Beth mae’n rhaid i mi ei wneud i ennill y cymhwyster hwn?

Er mwyn ennill y cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, bydd angen i chi wneud y canlynol:

- cydweithio’n agos â’ch **tiwtor/athro/athrawes/aseswr/cyflogwr**
- bod yn barod i ddysgu pethau newydd a phrofi pethau newydd sy’n ymwneud â gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- paratoi am asesiadau a’u cwblhau – mae rhagor o wybodaeth am asesu ar dudalen 23.

Drwy gydol y cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, byddwch chi’n dod i gysylltiad â phobl mewn amryw o wahanol rolau, ac yn cael cefnogaeth ganddynt:

| ROLAU | CWMPAS A SWYDDOGAETH |
|---|---|
| Tiwtor | Darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster. Gall y tiwtor hwyluso'r broses asesu. |
| Aseswr Mewnol | Aseswr cymwysedig – bydd yn gyfrifol am bennu canlyniad y tasgau yn Adran 1 ac Adran 3 gan ddefnyddio meini prawf llwyddo a osodwyd yn allanol. |
| Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol | Sicrhau bod y broses o asesu tystiolaeth o ansawdd cyson a phriodol. |
| Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol | Yn gyfrifol am gadarnhau bod y gwaith o gynllunio, cyflwyno ac asesu'r tasgau a asesir yn fewnol wedi'i wneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau City & Guilds. |
| Aseswr Allanol City & Guilds* | Aseswr cymwysedig sy'n gyfrifol am wneud y dyfarniad asesu terfynol ar gyfer tasgau asesu Adran 2, sy'n ymdrin ag uned 411. |
| Aseswr Arweiniol City & Guilds* | Bydd yn gyfrifol am samplu a safoni'r dyfarniad asesu a bennir gan aseswyr allanol. |

*** Penodir y rolau hyn gan City & Guilds – mae’n bosib y byddwch chi yn cyfarfod â’r bobl hyn tuag at ddiwedd eich cymhwyster.**

# Ffocws ar arweinyddiaeth

Drwy gydol y cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, mae ffocws ar ddatblygu eich dealltwriaeth o sgiliau arwain a rheoli, er mwyn i chi allu dangos eich bod chi'n 'deall' ac yn 'gwybod' sut i arwain a rheoli tîm yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o'r unedau'n canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut i arwain a rheoli, yn hytrach na chynorthwyo a hybu.

e.e. Uned 411 – Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Uned 412 – Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

O ganlyniad, mae llawer o'r deilliannau dysgu drwy'r cymhwyster i gyd yn mynnu dealltwriaeth o'ch rôl ar lefel cyfrifoldeb uwch.

e.e. Uned 411, Deilliant dysgu 5 – Deall sut i reoli arloesi a newid.

Uned 412, Deilliant dysgu 2 – Deall y sgiliau a'r rhinweddau y mae eu hangen i arwain a rheoli timau'n effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae llawer o feini prawf asesu'n dangos hyn hefyd.

e.e. Uned 411, maen prawf asesu 6.1 – Rydych yn deall sut i ddefnyddio hyfforddiant, mentora a chyfweliadau cymhellol i gefnogi newid.

Uned 412, maen prawf asesu 1.1 – Rydych yn deall sut i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth arwain a rheoli gweithwyr.

## Ymgysylltu â chyflogwyr

Er mwyn ennill y cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, does dim angen i chi fod yn gyflogedig. Fodd bynnag, os ydych chi'n gyflogedig ar hyn o bryd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, naill ai am dâl neu'n ddi-dâl, mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyfle i'ch cyflogwr gymryd rhan fawr yn eich dysg, eich datblygiad a'ch cynnydd drwy eich cymhwyster i gyd, ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei annog a'i hybu'n gryf.

## Beth yw mentor yn y gweithle?

Efallai y bydd eich cyflogwr yn neilltuo mentor yn y gweithle i chi. Dydy'r rhain ddim yn ofyniad gorfodol ar gyfer y cymhwyster hwn, ond mae rhai cyflogwyr a darparwyr yn cydnabod bod ganddynt ran bwysig i'w chwarae o ran dysgu ac asesu yn y gweithle. Bydd mentor yn y gweithle yn eich helpu chi i wneud cysylltiadau rhwng yr hyn rydych chi'n ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a sut mae hyn yn berthnasol i'r byd gwaith. Efallai y bydd hefyd yn eich helpu chi i ganfod cyfleoedd i ddysgu wrth i chi wneud eich gwaith, ac i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn. Efallai y gall eich aseswr mewnol hefyd roi cymorth i chi fel mentor.

# Sut gallai fy nhaith drwy'r cymhwyster edrych?

**Cam 1 – Cyn cyflwyno**

- Asesu cychwynnol a sefydlu

**Cam 2 – Cyfnod dysgu**

- Cyfnod dysgu ffurfiol
- Arwain at asesiad crynodol

**Cam 3 – Cyfnod yr Asesiad Crynodol**

- Asesir y cymhwyster gan gyfres o dasgau a osodir yn allanol

**Cam 4 – Cwblhau**

- Cyflwyno graddau asesu i City & Guilds
- Cadarnhau penderfyniad

***Caiff camau 2 a 3 eu hailadrodd ar gyfer pob uned yn y cymhwyster**

1

# Cam 1 – Cyn cyflwyno

## Asesu cychwynnol a sefydlu

Byddwch chi'n cwblhau asesiad cychwynnol cyn dechrau eich rhaglen i ganfod:

- oes gennych chi unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant
- cymorth ac arweiniad y gall fod eu hangen arnoch chi wrth weithio tuag at eich cymhwyster
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir y dylai canolfannau gynnig rhaglen sefydlu, fel eich bod chi'n deall gofynion y cymhwyster, eich cyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gontract dysgu. Mae'n fuddiol iawn i'ch rheolwr gymryd rhan yn y drafodaeth hon neu gyfrannu ati.

Byddai hefyd o gymorth trafod â'ch tiwtor/aseswr beth rydych chi'n gobeithio ei gyflawni o'r cymhwyster hwn, a byddai'n werth cwblhau datganiad personol ar ddechrau'r rhaglen, i ystyried eich nodau eich hun o ran yr hyn rydych chi'n gobeithio ei gyflawni drwy gwblhau'r rhaglen, a chanolbwyntio ar y rhain drwy gydol y broses gyflwyno.

Efallai y bydd eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gweithle yn gofyn i chi wneud gwaith dysgu ychwanegol sy'n canolbwyntio ar yr ystod ehangach o sgiliau y gall fod eu hangen arnoch chi er mwyn cwblhau'r cymhwyster hwn, e.e. cyflwyniad i sgiliau astudio ac ymchwil. Bydd cyflwyniad i'r sgiliau hyn o fantais fawr er mwyn eich cefnogi chi drwy'r broses gyflwyno a'r tasgau asesu, ac i sefydlu profiad dysgu wedi'i gyfoethogi.

## Pa unedau byddaf i'n eu cwblhau?

I ennill y cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol** mae'n rhaid i chi gwblhau'r tair uned orfodol. Mae cyfanswm o 60 credyd am yr unedau hyn.

## Beth yw credydau?

Rydym wedi rhoi gwerth credyd i bob uned. Mae’r credydau a roddir i uned yn adlewyrchu lefel a swm y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr ymddygiadau, y sgiliau a’r arferion a gyflawnir drwy gwblhau’r uned. Er mwyn cyflawni’r cymhwyster, **rhaid** i chi gyflawni cyfanswm o 60 credyd **o leiaf**.

**Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person/plentyn-ganolog**

**Uned 410**
115 ODA/22 credyd
9 Deilliant dysgu

**Nod yr uned:**
Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i ddamcaniaethau, modelau a fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer ymarfer person/plentyn-ganolog.

Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term ‘unigolyn’ yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc.

**Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**

**Uned 411**
120 ODA/20 credyd
6 Deilliant dysgu

**Nod yr uned:**
Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i fframweithiau damcaniaethol a fframweithiau rheoleiddio a'r ffordd y mae'r rhain yn cefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog.

Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term ‘unigolyn’ yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc.

**Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

**Uned 412**
100 ODA/18 credyd
7 Deilliant dysgu

**Nod yr uned:**
Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i ddamcaniaethau, fframweithiau a dulliau o ysgogi a datblygu timau i gefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog.

# Cam 2 – cyfnod dysgu

- **Cyfnod dysgu ffurfiol**

*Gallai hyn gynnwys astudio annibynnol, gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth a/neu dysgu ‘yn y gwaith’*

- **Arwain at asesiad crynodol**

*Ar ôl dysgu, byddwch chi’n trafod â’ch aseswr pa mor barod ydych chi am asesiad ac yn dod i gytundeb*

**Asesiad cychwynnol cadarn a sefydlu**

**Cyd-destunoli cyflwyno**

Byddwch chi'n ymateb i wybodaeth a dealltwriaeth newydd os yw'n berthnasol i'ch cyd-destun cyflogaeth presennol neu i brofiad gwaith blaenorol rydych chi wedi'i gael yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

**Gwreiddio cynnwys sylfaenol**

Er enghraifft, yn ystod sesiwn gallwch wneud y canlynol:

- cael eich cyflwyno i brif destun y sesiwn
- cymryd rhan mewn trafodaeth i archwilio eich dealltwriaeth a/neu wybodaeth bresennol
- edrych eto ar hyn a'i gynnwys mewn sesiynau yn y dyfodol.

**Cadarnhad a her - myfyrio ar / ar ac ar ôl gweithredu**

- Fyddech chi'n gwneud unrhyw beth yn wahanol?
- Pe baech chi'n gallu newid un peth, beth fyddai hwnnw?
- Wnaethoch chi ddysgu unrhyw beth oedd yn eich synnu chi?
- Beth ydych chi'n ei wybod nawr nad oeddech chi'n ei wybod o'r blaen?

**Porth i asesiad crynodol**

Byddwch chi'n trafod â'ch aseswr pa mor barod ydych chi am asesiad.

Dylid addysgu pob uned yn ei threfn a chynnal asesiad crynodol wedi hynny. Mae'r broses hon yn cael ei hailadrodd nes bod y tair uned i gyd wedi'u haddysgu a'u hasesu.

Bydd eich tiwtor yn eich cynorthwyo ac yn eich arwain, gan eich helpu chi i ddysgu am yr holl bethau pwysig mae angen i chi eu gwybod er mwyn arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd eich tiwtor/athro/athrawes yn defnyddio adnoddau dysgu a thechnegau addysgu sydd wedi'u llunio i'ch helpu chi i baratoi am asesiad.

## Parodrwydd am asesiad – dangos cymhwysedd

Mae'n bwysig sicrhau mai dim ond pan fydd eich tiwtor/aseswr mewnol yn hyderus eich bod chi'n ddigon cymwys i gwblhau'r asesiad yn llwyddiannus y dylech gael eich asesu. Bydd eich tiwtor/aseswr mewnol yn rhyddhau tasgau unigol i chi ar adeg addas ar ôl cyflwyno'r cynnwys, ac ar adeg pan fydd eich tiwtor/aseswr mewnol yn hyderus bod eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth yn ddigon da i gwblhau'r dasg asesu.

## Rhyddhau'r dasg

Pan fydd eich tiwtor/aseswr mewnol o'r farn eich bod chi'n barod am yr asesiad, bydd yn rhyddhau'r dasg asesu i chi. **Ni ddylai'r** tiwtor/aseswr mewnol ryddhau'r tasgau asesu i gyd gyda'i gilydd.

Dylai eich tiwtor/aseswr mewnol drafod amserlen ar gyfer cwblhau'r tasgau â chi a dod i gytundeb amdani, gan ystyried eu rhaglen gyflwyno a'ch gallu i gwblhau pob un o'r tasgau o fewn y cyfnod asesu. Dylid gosod dyddiadau cyflwyno ar gyfer tasgau asesu fel **nad** ydynt yn gorgyffwrdd, h.y. dylech chi gael cyfnod penodol i ymateb i bob tasg.

Mae angen i chi gynllunio eich gwaith a'ch gweithgareddau; mae'n rhaid i diwtor/aseswr mewnol gadarnhau bod eich cynlluniau'n briodol. Ar ôl cael y drafodaeth hon a dod i gytundeb, rhaid i'r tiwtor/aseswr mewnol roi amserlen i chi ar gyfer cwblhau pob un o'r tasgau, gan gynnwys dyddiadau cyflwyno clir. **Byddwch chi'n cyflwyno'r dasg fel eich gwaith terfynol.**

# Cam 3 – Cyfnod yr Asesiad Crynodol

- **Ar gyfer yr asesiad allanol rhaid i ddysgwyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:**

*Project sy'n cynnwys cyfres o dasgau, yn seiliedig ar newid arfaethedig i ymarfer*

- **Ar gyfer yr asesiad mewnol rhaid i ddysgwyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:**

*Cyfres o dasgau, sy'n cynnwys ymatebion llafar ac ysgrifenedig*

# Sut caiff fy nghymhwyster ei asesu?

Caiff y cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol** ei asesu mewn cyfres o dasgau a osodir yn allanol. Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno'r holl raddau asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair uned yn llwyddiannus.

| UNED | TEITL | TASG | GWEITHGAREDD | ASESU |
|---|---|---|---|---|
| Uned 410 | Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person-ganolog/plentyn-ganolog | Tasg A<br>Tasg B<br>Tasg C | Ymateb ysgrifenedig*<br>Ymateb ysgrifenedig*<br>Asesiad llafar (60 munud yn annibynnol + 30 munud o drafodaeth) | Asesu mewnol, cymedroli allanol |
| Uned 411 | Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol | Tasg Ch<br>Rhan (i)<br>Rhan (ii) | <br>Adroddiad ar newid i ymarfer<br>Cyflwyno adroddiad ar newid i ymarfer (15 munud), a thrafodaeth (5-10 munud) | <br>Asesir yn allanol<br>Ar leoliad neu asesu o bell wedi'i ystyried (t. 18) |
| Uned 412 | Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn maes gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol | Tasg D<br>Tasg DD<br>Tasg E | Ymateb ysgrifenedig*<br>Asesiad llafar (60 munud yn annibynnol + 30 munud o drafodaeth)<br>Ymateb ysgrifenedig* | Asesu mewnol, cymedroli allanol |

Dylid rhyddhau tasgau yn eu trefn, NID pob un ar unwaith, gan roi cyfnod penodol i ymateb i bob tasg

Defnyddio adnoddau a chyfeiriadau allanol – darparwyd canllawiau clir ar gyfeirio yn y pecyn asesu

*Dylid cyflwyno ymatebion ysgrifenedig ar ffurf electronig, wedi'u teipio. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu gwaith yn daclus, h.y. defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (megis Times New Roman, neu ffont tebyg, maint 12), gofod dwbl a dylid sicrhau bod digon o le ar ymyl y dudalen.

## Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud?

Mae'r asesiadau ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'u llunio i roi'r cyfle i chi i ddangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o arwain a rheoli yng nghyd-destun sefyllfaoedd gwaith go iawn ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r tasgau'n ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried y ffordd y byddech yn ymddwyn mewn rôl arwain a rheoli, a dylech ymgymryd â'r tasgau o'r safbwynt hwn, gan gymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych chi wedi'u meithrin o'ch rhaglen ddysgu i ymateb i'r tasgau.

Lle bo'n bosibl, cewch eich annog i ddefnyddio eich profiad a'ch myfyrdodau eich hun o brofiad blaenorol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol i ategu eich ymatebion.


Os byddwch chi'n cyfeirio at unrhyw brofiadau presennol neu flaenorol sy'n ymwneud â gweithio gydag unigolion neu eraill, mae'n rhaid i chi sicrhau nad oes modd adnabod unrhyw unigolion na sefydliadau/lleoliadau rydych chi'n cyfeirio atyn nhw yn unrhyw un o'ch tasgau asesu. Dylai hyn gynnwys bod yn ofalus i beidio â defnyddio cyfeiriadau neu wybodaeth benodol a allai, yn anuniongyrchol, ddangos pwy yw sefydliad/lleoliad, unigolyn sy'n cael cymorth neu unigolyn arall.

Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno'r tair gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair uned yn llwyddiannus.

## Cymorth ac adborth

Gall tiwtoriaid/aseswyr mewnol roi arweiniad i chi o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol drwy eich cynorthwyo i ddeall y tasgau. Dylech chi fod yn siŵr eich bod chi'n deall yr hyn mae angen i chi ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen i chi ychwanegu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn eich gwaith ysgrifenedig.  Ddylai eich tiwtor/aseswr mewnol ddim eich arwain chi, na dweud wrthych chi beth i'w wneud, mewn ffordd sy'n eich atal chi rhag gallu dangos eich proses eich hun ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth yn annibynnol.

# Crynodeb o'r asesiad ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol



## Beth yw asesiad llafar?

Byddwch chi'n cwblhau dau asesiad llafar gyda'ch aseswr mewnol. Ar y ddau achlysur, bydd eich aseswr yn rhoi senario i chi a bydd angen i chi ddarllen ac adolygu'r senario. Yna bydd angen i chi ddrafftio eich ymatebion i wahanol gwestiynau a rhoi eich atebion ar lafar i'ch aseswr.

## Yn ystod yr asesiad llafar

Bydd eich aseswr yn gwneud nodiadau i nodi eich ymatebion. Dylai'r drafodaeth deimlo mor naturiol â phosibl, gan ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn eich galluogi chi i lywio'r sgwrs. Disgwylir i'r aseswr ddefnyddio nifer o dechnegau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn effeithiol ac â phwyslais penodol. Gall y rhain gynnwys:

- defnyddio cwestiynau dilynol lle bo angen er mwyn cael mwy o wybodaeth neu egluro pwyntiau, fel 'Sut roeddet ti'n gwybod hynny?', 'Sut wnes di ddod i'r casgliad hwnnw?'
- crynhoi'r pwyntiau a nodwyd er mwyn sicrhau ei fod wedi deall a chofnodi tystiolaeth yr ymgeisydd yn gywir.

## Amseriadau

Ar ôl rhyddhau'r dasg, mae gennych chi hyd at **60 munud** o amser paratoi i ymateb i'r senario a drafftio eich ymatebion i'r cwestiynau.

Yna, bydd gennych chi hyd at **30 munud** gyda'ch aseswr i drafod eich ymatebion ar lafar.

## Cadw tystiolaeth

Mae hawl gan yr aseswr i recordio'r drafodaeth yn ddigidol er mwyn cefnogi'r broses asesu, e.e. i ôl-adolygu'r drafodaeth, neu helpu i wneud nodiadau y gall fod yn anodd eu gwneud yn llawn yn ystod y drafodaeth ei hun. Os bydd yr aseswr am recordio'r drafodaeth yn ddigidol, rhaid iddo drafod hyn gyda chi a sicrhau cytundeb cyn dechrau.

## Beth yw Tasg CH a pham mae ganddi hi **ddwy** ran?

Mae Tasg CH (i) yn gofyn i chi **ysgrifennu adroddiad** sy'n amlinellu newid i ymarfer; byddwch chi'n defnyddio'r adroddiad hwn fel sail i Dasg CH (ii), pan fydd angen i chi roi **cyflwyniad ffurfiol o'ch adroddiad** i'ch aseswr allanol, gan amlinellu ei gynnwys a sail resymegol y newid i ymarfer rydych chi'n ei gynnig. Ar ôl hyn, dylech chi fod yn barod i gael **trafodaeth gyda'r aseswr allanol am eich adroddiad a'ch cyflwyniad**.

## Yn ystod y cyflwyniad a'r drafodaeth

Yn ystod y cyflwyniad, bydd yr aseswr allanol yn casglu tystiolaeth. Argymhellir bod yr aseswr hefyd yn recordio'r cyflwyniad a'r drafodaeth, a bydd yn cael caniatâd gennych chi cyn gwneud hynny.

Dylai'r drafodaeth ei hun deimlo mor naturiol â phosibl, gan ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn eich galluogi chi i lywio'r sgwrs. Disgwylir i'r aseswr allanol ddefnyddio nifer o dechnegau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn effeithiol ac â phwyslais penodol.

Gall y rhain gynnwys:

- defnyddio cwestiynau dilynol lle bo angen i geisio cael rhagor o wybodaeth neu i egluro pwyntiau, cwestiynau fel:
  - 'Sut roeddech chi'n gwybod hynny?'
  - 'Pa ddull gwnaethoch chi ei ddefnyddio i ddod i'r casgliad hwnnw?'
  - 'Pam gwnaethoch chi ddewis y dull hwnnw?'
- crynhoi'r pwyntiau a nodwyd er mwyn sicrhau ei fod wedi deall a chofnodi eich tystiolaeth yn gywir.

Ar ddiwedd y drafodaeth, dylai'r aseswr allanol rannu'r nodiadau mae wedi'u cymryd o'r asesiad gyda chi, gan siarad am yr hyn mae wedi'i arsylwi. Dylech chi a'r aseswr allanol lofnodi'r ffurflen cofnodi asesiad allanol i gadarnhau bod y dystiolaeth a gasglwyd yn gywir. Nid yw'r cam hwn yn gyfle i roi adborth ffurfiol na deilliant graddio.

## Amseriadau

Bydd eich cyflwyniad yn para tua **15** munud.

Ar ôl y cyflwyniad, bydd yr aseswr allanol yn cynnal trafodaeth **5-10** munud gyda chi.

# Cynorthwyo'r broses asesu

## Adnoddau

Ar gyfer y tasgau asesu sy'n gofyn am ymatebion ysgrifenedig, disgwylir bod gennych chi fynediad i offer TG a'r rhyngrwyd, fel y bo'n briodol er mwyn cwblhau'r tasgau. Disgwylir i chi gynhyrchu ymatebion wedi'u teipio ar gyfer eich gwaith ysgrifenedig.

- Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gynnwys pennyn ar bob tudalen yn cynnwys eich enw a'ch llofnod/e-lofnod, ynghyd â dyddiad cynhyrchu'r dystiolaeth.
- Rhaid cyfeirio pob darn o dystiolaeth at y dasg y mae'n cyfateb iddi, naill ai ar ffurflen cyfeirio tystiolaeth neu o fewn y pennyn.
- Rhaid i bob darn o dystiolaeth fod yn daclus, h.y. defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (megis Times New Roman, neu ffont tebyg, maint 12), gofod dwbl a dylid sicrhau bod digon o le ar ymyl y dudalen.
- Lle y bo'n berthnasol, gallwch chi ddefnyddio a chyfeirio at adnoddau allanol drwy gydol y tasgau asesu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi nodi'n glir unrhyw adnoddau allanol rydych chi wedi cyfeirio atyn nhw neu wedi'u defnyddio fel rhan o'ch ymatebion. Mae adran ***'Beth mae'n rhaid i chi ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad'*** pob tasg yn nodi'n glir lle mae'n rhaid darparu rhestr gyfeirio os ydych chi wedi defnyddio adnoddau allanol fel rhan o'ch ymateb i'r dasg.

**Ar gyfer Tasg Ch (ii), mae'r ganolfan yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd a chyfleusterau priodol a fydd yn eich galluogi chi i ddarparu cyflwyniad ar ffurf ystafell fwrdd neu gyflwyniad PowerPoint.**

(Disgrifir fformat ystafell fwrdd fel sefyllfa lle y byddai'r aseswr yn eistedd wrth fwrdd a chi'n rhoi cyflwyniad o flaen yr ystafell, wrth ymyl yr offer arddangos.)



## Cefnogaeth ac adborth

- Gall tiwtoriaid/aseswyr mewnol roi arweiniad i chi o ran y dystiolaeth sy’n ofynnol drwy eich cynorthwyo i ddeall y tasgau.
- Dylai’r tiwtor/aseswr fod yn siŵr eich bod chi’n deall yr hyn mae angen i chi ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen i chi ychwanegu esboniadau sy’n dangos dealltwriaeth yn eich gwaith ysgrifenedig.
- Fodd bynnag, dylai sicrhau **nad ydych chi’n cael eich arwain, nac yn cael gwybod beth i’w wneud, mewn ffordd sy’n eich atal rhag gallu dangos eich proses ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymhwyso eich gwybodaeth a’ch dealltwriaeth yn annibynnol**.

# 4

- **Cyflwyno graddau asesu i City & Guilds**
- **Cadarnhau penderfyniad**

*Byddwch chi'n cael gwybod am ganlyniad yr asesiad. Os nad yw'r asesiad wedi'i gyflawni, amlinellir y rhesymau dros y canlyniad hwn – a rhoddir adborth ynghylch beth mae angen ei wneud nesaf.*

## Dyfarnu’r cymhwyster

Asesir y cymhwyster drwy gyfres o dasgau a osodir yn allanol.

Asesir **Adran 1** (Tasgau A-C) yn fewnol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau’n llwyddiannus. Asesir **Adran 2** (Tasg Ch) gan aseswr allanol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau’n llwyddiannus. Asesir **Adran 3** (Tasgau D – E) yn fewnol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau’n llwyddiannus.

Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno’r tair gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o’r tair uned yn llwyddiannus.

## Ailgyflwyno

Os methwch chi â bodloni’r meini prawf gofynnol i lwyddo mewn unrhyw dasg asesu, cewch chi ailsefyll y dasg. Pan fydd yn ofynnol i chi ailsefyll y dasg, bydd eich aseswr yn darparu adborth allai eich cyfeirio chi at gamau unioni i hybu eich datblygiad mewn perthynas ag unrhyw ddiffygion yn eich gwybodaeth a’ch dealltwriaeth. Dylid rhoi arweiniad i chi hefyd ynghylch sut dylai eich ail ymgais fod yn wahanol i’ch ymateb gwreiddiol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, gofynnir i chi edrych ar y dasg o safbwynt gwahanol, gan gyfeirio naill ai at senario neu enghraifft wahanol, er mwyn dangos y wybodaeth a’r ddealltwriaeth rydych chi wedi’u datblygu. Ar gyfer tasgau wedi’u hasesu’n allanol, bydd yr aseswr allanol yn darparu adborth lefel uchel i’ch tiwtor/aseswr mewnol, a dylid defnyddio’r adborth hwnnw i ategu unrhyw weithgarwch ychwanegol fydd ei angen er mwyn cynorthwyo’r gwaith o ddatblygu eich dysg cyn ailsefyll y dasg/tasgau.

## Sut rydw i’n cael fy nhystysgrif?


Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno’r tair gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o’r tair uned yn llwyddiannus. Cyn gynted â bod y tasgau i gyd wedi’u cwblhau gan fodloni gofynion y cymhwyster, bydd y Corff Dyfarnu’n cynnal nifer o’u harchwiliadau eu hunain i sicrhau ansawdd. Caiff eich tystiolaeth ei dilysu’n fewnol gan Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol a enwir gan eich ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gwaith, a bydd ar gael i’w dilysu’n allanol gan Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol a ddyrennir gan y Corff Dyfarnu. Os yw pawb yn cytuno â phenderfyniad eich aseswyr, cyflwynir eich tystysgrif.



# Pa gefnogaeth sydd ar gael i mi?

Efallai y gallwch chi wneud cais am gefnogaeth ychwanegol yn ystod eich cyfnod astudio ac asesu. Bydd angen i chi fodloni meini prawf penodol a gall gymryd cryn amser i drefnu'r broses, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n siarad â'ch tiwtor/athro/athrawes/hyfforddwr neu aseswr cyn gynted a phosibl er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau. Nid yw pob cais am gefnogaeth ychwanegol yn llwyddiannus, ac efallai y gofynnir i chi am dystiolaeth benodol i helpu i wneud y penderfyniad iawn.

**COFIWCH:** Cyn sefyll asesiad, mae'n bwysig bod yn hyderus eich bod chi'n barod, a bydd eich tiwtor/athro/athrawes/aseswr yn eich helpu chi i ddeall pryd rydych chi wedi cyrraedd y pwynt hwn. Drwy gydol y cyfnod dysgu, dylech chi gael cyfleoedd i ymarfer gweithio gydag unigolion yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae adnoddau dysgu ar gael ar y gwefannau canlynol:




Dysgu Iechyd a Gofal Cymru:
https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

Gofal Cymdeithasol Cymru:
https://gofalcymdeithasol.cymru/resources-guidance
https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau
https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan
https://socialcare.wales/hub/home

# Sut gallaf i baratoi am fy asesiadau?

Dylech chi ddechrau paratoi am eich asesiadau cyn gynted â'ch bod chi'n dechrau eich cymhwyster. Y cynharaf byddwch chi'n dechrau trefn astudio dda, y lleiaf o straen fydd hyn i chi. I astudio'n llwyddiannus, mae angen sgiliau da o ran trefnu pethau a rheoli amser, ond mae angen i chi fod yn realistig hefyd. Os ydych chi'n gweithio yn ogystal â mynychu ysgol neu goleg, neu os ydych chi'n cwblhau rhaglen yn y gwaith fel prentisiaeth, bydd angen i chi gynllunio amser ar gyfer astudio. Byddwch yn falch eich bod chi'n astudio a gadewch i'ch ffrindiau a'ch teulu wybod y bydd angen eu cefnogaeth arnoch chi, a'ch bod chi'n disgwyl cael y gefnogaeth honno.

Mae rhai pobl yn ei gweld hi'n haws ac yn fwy effeithiol astudio y peth cyntaf yn y bore, ac mae'n well gan eraill ei wneud yn nes ymlaen yn y dydd, ond pryd bynnag rydych chi'n astudio, mae'n llawer haws a mwy llwyddiannus os oes gennych chi le tawel a chyfforddus sy'n olau ac yn awyrog, gan gynnwys rhywle i ysgrifennu a darllen.

Mae llawer o adnoddau ar gael ar y gwefannau canlynol i'ch helpu chi i astudio:

**ADNODDAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU**

https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/dogfennau

**ADNODDAU DYSGU DIGIDOL**

https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/

https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

Mae llawer o offer a phropiau ar gael i'ch helpu chi i astudio.

- Mae ysgrifennu â beiros lliwgar yn gallu eich helpu chi i sylwi ar eiriau neu frawddegau allweddol wrth adolygu.
- Mae crynhoi eich nodiadau'n gallu eich helpu chi i drefnu eich dysgu a lleihau ailadrodd.
- Gweithio gydag eraill mewn grwpiau bach – mae rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth a phrofi eich gilydd yn werth chweil.
- Cymryd egwyliau rheolaidd – mae awyr iach ac ymarfer corff yn gallu rhoi hwb i'ch egni a helpu i gadw eich meddwl ar y gwaith.
- Cymryd egwyl oddi wrth y cyfryngau cymdeithasol – rhoi eich ffôn yn y modd tawel neu, yn well fyth, ei ddiffodd.

**COFIWCH** na allwch astudio'n dda os ydych chi wedi blino, dan straen, neu ar frys. Cynllunio a phenderfynu yw'r allwedd!

# Dilyniant –beth gallai'r cymhwyster hwn arwain ato?

Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol (gwybodaeth)

Rhagofyniad

Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (cymhwysedd)

Yn dibynnu ar y rôl

Uned 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cymhwysedd)

Lefel 4 – cymwysterau 'rôl benodol' (cymhwysedd) (Eiriolaeth Annibynnol, Cysylltu Bywydau, Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol)

Mae cynllun a disgwyliadau'r cymwysterau Lefel 4 a Lefel 5 yn galluogi cyfleoedd dilyniant fertigol a llorweddol

# Dilyniant mewn Cyflogaeth

Ar ôl dechrau gweithio, efallai y bydd cyfleoedd pellach i symud ymlaen i rolau Lefel 4 neu, ar ôl i chi ennill mwy o brofiad a hyder, i ddatblygu eich potensial i arwain a rheoli. Mae'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol** wedi'i lunio i adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau byddwch chi wedi'u datblygu ar Lefel 4. Bydd y rhain yn eich helpu chi i ddatblygu eich gyrfa ac maent wedi cael eu llunio i ategu datblygiad y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ***arwain a rheoli gwasanaethau***.

Er mwyn symud ymlaen at y cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, sy'n ofynnol er mwyn rheoli gwasanaethau mewn rhai rhannau o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, yn gyntaf mae'n rhaid i chi gwblhau **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol** (ar gael ym mis Medi 2020).

**Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (ar gael ym mis Medi 2020)**
Bydd y cymhwyster hwn yn adeiladu ar yr hyn rydych chi wedi ei ddysgu ar Lefel 4 ac yn rhoi cyfle i asesu eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau. Er mwyn llwyddo i gwblhau'r cymhwyster, mae'n rhaid i chi fod yn gweithio ar Lefel 5 ac yn gallu dangos eich bod chi wedi dod yn arweinydd ac yn rheolwr cymwys. Mewn rhai rhannau o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, mae'n ofyniad bod gan weithwyr gymhwyster Lefel 5 cydnabyddedig. Mae Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer yn gymhwyster cydnabyddedig.

Os na allwch chi ddod o hyd i swydd Lefel 5, bydd y gyfres newydd o gymwysterau'n eich galluogi chi i barhau â'ch datblygiad (sef dilyniant llorweddol) ar Lefel 4. Mae'r gyfres yn cynnwys grŵp ychwanegol o gymwysterau Lefel 4 gan gynnwys:

- **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
- **Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
- **Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol**
- **Lefel 4 Lleoliadau Oedolion/Rhannu Bywydau**
- **Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol.**

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru: https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/

# Dilyniant ar draws y sector ehangach

Mae'r cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn rhan o gyfres fwy o gymwysterau sydd wedi'u llunio i alluogi dilyniant yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, i rolau eraill yn y sector plant a blynyddoedd cynnar ac at astudiaeth bellach neu hyfforddiant proffesiynol.

Ar ôl cwblhau'r cymhwyster **Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, efallai y gwnewch chi benderfynu yr hoffech chi weithio ym maes gofal plant, neu barhau i astudio. Bydd y cymwysterau canlynol yn eich helpu chi i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn rhannau eraill o'r sector ehangach ac, er nad ydynt yn hanfodol, gallent gynorthwyo â dilyniant i astudiaeth bellach neu uwch.

- Lefel 3 Tystysgrif a Diploma Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc)
- TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori*
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer*
- Lefel 4 Arwain a Rheoli yn y Maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

## Fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru'n cydnabod fy nghymhwyster?

Mae cynnwys y cymhwyster hwn yn cynrychioli'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth Lefel 4 sylfaenol sy'n hanfodol i weithio mewn rôl arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd disgwyl i ddysgwyr gwblhau'r cymhwyster hwn cyn:

- Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer.

Mae'r holl gymwysterau newydd yn y gyfres yn gysylltiedig ag agweddau allweddol ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac mae cyrff rheoleiddio'r gweithlu a sefydliadau'r sector yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cydnabod eu bod yn gynrychiadol o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig.

## Cyllid

Mae cyllid ar gael yng Nghymru i'r holl gymwysterau mae'r ddogfen hon yn sôn amdanynt, gan gynnwys Prentisiaethau. Siaradwch â'ch ysgol, coleg neu ddarparwr yn y gwaith am gyfleoedd am gyllid allai weddu i'ch anghenion chi.

# Sut rydw i'n hoffi dysgu – Beth yw fy 'hoff' arddull dysgu?


Mae dysgu'n broses unigol iawn, ac felly mae hi'n bwysig eich bod chi'n canolbwyntio ar sut gallwch chi ddysgu a phrosesu gwybodaeth yn effeithiol a sut gall hyn fod o gymorth i'ch llwyddiant a'ch dilyniant. Mae'n bwysig eich bod chi'n dysgu'n effeithiol er mwyn gallu galw eich gwybodaeth newydd i gof yn rhwydd pan fydd angen. Nid dim ond mater o wneud yn dda yn eich asesiadau yw hyn – mae'r un mor bwysig eich bod chi'n gallu galw eich gwybodaeth i gof wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl eraill. Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi chi i feithrin a dangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o bobl hoff ffordd o ddysgu, a bod modd disgrifio hyn yn fras ag un neu ddau o'r canlynol:

1. Gwneud
2. Meddwl
3. Teimlo
4. Gwylio


Dros y blynyddoedd, mae cryn dipyn o fodelau neu ddamcaniaethau wedi cael eu datblygu i geisio ein helpu ni i ddeall sut rydyn ni'n dysgu a pha fathau o bethau y gall fod eu hangen ar wahanol unigolion i wneud dysgu'n broses haws a mwy llwyddiannus. Dau o'r modelau mwyaf poblogaidd, neu gyffredin, yw damcaniaeth dysgu drwy brofiad Kolb (1984) a damcaniaeth Honey a Mumford (1983) ar arddulliau dysgu.

Mae model Kolb yn awgrymu bod dysgu effeithiol yn digwydd mewn cylch, bod 'profiadau' yn ganolog i'r broses a bod y rhan fwyaf o bobl yn dysgu gan ddefnyddio un neu ddau fath o weithred – teimlo, meddwl, gwylio, gwneud.




Kolb D.A. (1984) 'Experiential Learning experience as a source of learning and development', New Jersey: Prentice Hall

Fe wnaeth Honey a Mumford adeiladu ar ddamcaniaeth Kolb, gan awgrymu pedwar math o arddull dysgu ac mai dim ond un neu ddau o'r rhain fyddai'n dylanwadu'n drwm ar ddull dysgu unigolyn.




Pan gyflwynwyd pwnc 'hoff' arddulliau dysgu am y tro cyntaf fel ffordd o hybu dysgu effeithiol, roedd llawer o bobl yn credu mai dim ond un ffordd oedd i unigolion ddysgu ac nad oedd hyn yn newid rhyw lawer. Mae syniadau modern am 'hoff' ddull dysgu'n cydnabod na ddylid meddwl am ymagwedd at ddysgu fel rhywbeth sydd ddim yn newid. Mae meddwl am sut mae'n well gennych chi ddysgu'n ffordd ddefnyddiol o'ch helpu chi i ystyried sut rydych chi'n ymateb yn wahanol i wybodaeth gan ddibynnu ar bethau fel sut rydych chi'n teimlo, eich cymhelliant a'ch hyder, y math o amgylchedd rydych chi ynddo, ac ati.

Os meddyliwch chi am y tro diwethaf i chi orfod dysgu rhywbeth, efallai y gwelwch chi fod eich hoff ddull yn ffitio yn un, neu efallai ddau, o'r categorïau canlynol:

| ARDDULL DYSGU | EFALLAI MAI HWN FYDD EICH HOFF ARDDULL DYSGU OS: | RYDYCH YN: | MATHAU O DDULLIAU DYSGU SY'N APELIO |
|---|---|---|---|
| GWEITHREDYDD | ydych chi'n hoffi dysgu drwy wneud. | frwdfrydig; yn tueddu i wneud pethau yn gyntaf ac ystyried wedyn; yn canolbwyntio ar y fan hyn a nawr. | Taflu syniadau, arbrofion ymarferol, chwarae rôl, trafodaeth grŵp a datrys problemau. |
| PRAGMATYDD | ydych chi'n hoffi gwybod sut mae pethau'n gweithio neu sut gallai pethau weithio yn y byd go iawn. | tueddu i sefyll yn ôl; yn ystyried pob ongl; yn tueddu i fod yn rhy ofalus. | Astudiaethau achos ac amser i feddwl am gymwysiadau ymarferol yr hyn rydych chi'n ei ddysgu. |
| MYFYRIWR | ydych chi'n hoffi meddwl am beth rydych chi'n ei ddysgu. | hoffi rhoi cynnig ar bethau; yn mynd i weithredu'n gyflym ac yn hyderus; yn gallu bod yn ddiamynedd; yn ddatryswr problemau effeithiol. | Treulio amser yn darllen ynglŷn â phwnc a gwylio pobl eraill yn rhoi cynnig ar bethau. |
| DAMCANIAETHWR | ydych chi'n hoffi deall sut mae'r pethau newydd rydych chi'n eu dysgu'n ffitio yn eich 'model gwaith' neu 'fframwaith' ac mewn damcaniaethau blaenorol. | dda am addasu; yn hoffi dadansoddi, meddwl yn ddwfn am bethau; yn feddyliwr rhesymegol. | Modelau a damcaniaethau, gyda digonedd o wybodaeth gefndir. |

Os meddyliwch chi am rai profiadau dysgu eraill rydych chi wedi'u cael, efallai y sylwch chi eich bod chi wedi defnyddio dull gwahanol oherwydd, er enghraifft, (1) roedd adnoddau gwahanol ar gael i chi, (2) roeddech chi'n teimlo'n hyderus, (3) roeddech chi'n gallu cymryd eich amser. Mae hyn oherwydd bod yr amgylchedd, eich teimladau emosiynol a'ch profiadau o ddysgu yn y gorffennol i gyd yn gallu effeithio ar eich ymagwedd at ddysgu heddiw.

Siaradwch â'ch tiwtor/athro/athrawes/aseswr/mentor yn y gwaith/cyflogwr am yr hyn sy'n gwneud dysgu'n haws i chi a pha bryderon sydd gennych chi, os o gwbl, am ddechrau cymhwyster neu raglen astudio newydd. Efallai y bydd eich tiwtor/athro/athrawes/aseswr/mentor yn y gwaith/cyflogwr hefyd yn gallu eich cynorthwyo chi i gael cymorth a chyngor ychwanegol, gan gynnwys sut i adnabod a deall yn well pa wahanol ddulliau dysgu sy'n gweithio orau i chi.